Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**4 HYDREF 2017**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Polisi Gwerth am Arian a Fframwaith GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Polisi Gwerth am Arian a Fframwaith GwE i'r Cyd-Bwyllgor ei gymeradwyo.

**2.0 Cefndir ac Ystyriaethau**

2.1 Mae GwE wedi ymrwymo i roi gwerth am arian fel rhan annatod o'i raglen weithredol a'i waith strategol. Mae ganddo gyfrifoldeb strategol i gyflawni Gwerth am Arian o'i ddefnydd o gyllid craidd a chyllid grant. Yn yr yn modd, mae anelu at Werth am Arian yn gyfrifoldeb yr holl staff, nid yn unig y rheini sydd â dyletswyddau ariannol.

2.2 Er mwyn bodloni ei ymrwymiad i gyflawni Gwerth am Arian, mae GwE wedi gosod yr amcanion a ganlyn:

- Gwreiddio egwyddorion Gwerth am Arian yn y prosesau rheoli, cynllunio ac adolygu presennol.
- Mabwysiadu arfer dda gydnabyddedig lle bo hyn yn gwneud synnwyr.
- Cynnal astudiaethau Gwerth am Arian mewn meysydd gweithgarwch y nodwyd yn deilwng o adolygiad.

- Meincnodi ein gweithgareddau yn erbyn gweithgareddau a sefydliadau cyffelyb eraill, lle'r ystyrir hyn yn ddefnyddiol.
- Ymateb i gyfleoedd i gyfoethogi economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau.
- Hybu diwylliant o welliant parhaus.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cydnabod eu rhwymedigaeth barhaus i geisio Gwerth am Arian fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

2.3 Adolygir y polisi hwn yn flynyddol i sicrhau ei fod yn unol ag amcanion GwE a'i fod yn cwmpasu ei holl weithgareddau.

**3.0 Argymhellion**

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r polisi a'r fframwaith.

**4.0 Goblygiadau Ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

7.1 Ni fu ymgynghori.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Polisi Gwerth am Arian GwE

8.2 Fframwaith Gwerth am Arian GwE

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau penodol o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy’n croesawu’r cynnydd gyda Pholisi a Fframwaith Gwerth am Arian.

Cyflwynir sylwadau pellach, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor.